# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 27 Gorffennaf a 3 Awst 2006

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio


## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Leanne Wood:** Beth oedd cost dylunio, argraffu, cyhoeddi, ysgrifennu a chynhyrchu adroddiad blynyddol y Prif Weinidog bob blwyddyn y cafodd ei gyhoeddi er 1999? (WAQ47629)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae cost argraffu a chyhoeddi adroddiad blynyddol y Prif Weinidog bob blwyddyn y cafodd ei gyhoeddi er 1999 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 1999-2000 | Dim adroddiad blynyddol gan y Prif Weinidog |
| 2000-01 | 1,000 adroddiad llawn = £2,280 |
| 2001-02 | 1,000 adroddiad llawn = £2,545 |
| 2002-03 | Dim adroddiad blynyddol gan y Prif Weinidog |
| 2003-04 | 3,000 adroddiad llawn a chopïau digidol = £5,225 |
| 2004-05 | 1,500 adroddiad llawn a 50,000 adroddiad cryno = £9,871 |
| 2005-06 | 1,000 adroddiad llawn a 70,000 adroddiad cryno = £8,495 |

Cafodd y gwaith o ddylunio, ysgrifennu a chynhyrchu adroddiad blynyddol y Prif Weinidog ei wneud yn fewnol gan ddefnyddio'r sgiliau a'r cyfleusterau oedd ar gael ar y pryd. Nid oes modd costio'r rheiny'n ôl-weithredol.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y goblygiadau o ran cynllunio ar gyfer argyfyngau sifil posibl yng Nghymru o ganlyniad i newidiadau yng ngwasanaethau'r crwner yng Nghymru? (WAQ47646)

**Y Prif Weinidog:** Cyhoeddwyd y Mesur Crwner drafft, sy'n ceisio moderneiddio system y crwner, ar 12 Mehefin 2006. Ar hyn o bryd mae'n destun ymgynghori tan 8 Medi. Byddai'n gynamserol cynnig sylwadau am y goblygiadau o ran cynllunio ar gyfer argyfyngau sifil posibl yng Nghymru ar hyn o bryd. Byddwn yn sicrhau bod unrhyw oblygiadau yn cael eu hadlewyrchu yn ein cynlluniau i'r dyfodol o dan gyfarwyddyd ac arweiniad fforwm Cymru gydnerth.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

**Glyn Davies:** Pa gynnydd y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ran cytuno ar gyllid trawsffiniol ar gyfer gwella'r A458 rhwng y Trallwng a'r ffin â Lloegr? (WAQ47610)

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Yn dilyn fy nghyfarfod am faterion trawsffiniol ar 20 Mehefin gyda Gweinidog Gwladol Llywodraeth y DU dros Drafnidiaeth, Dr Ladyman AS, mae nifer o faterion yn cael eu datrys gan fy swyddogion yn Nhrafnidiaeth Cymru a'u cymheiriaid yn yr Adran Drafnidiaeth a'r Asiantaeth Briffyrdd am gyllid ar gyfer cynllun yr A458 o Buttington Cross i Wollaston Cross.

**Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog nodi pa ganran o wariant Network Rail yn y cynllun busnes strategol cychwynnol ar gyfer cyfnod rheoli 4 o 2009-10 hyd 2013-14 sydd wedi ei ddyrannu (a) i Gymru (b) i Loegr (c) i Gymru a Lloegr ac (ch) i'r Alban? (WAQ47638)

**Andrew Davies:** Dechrau proses ddwy flynedd i bennu anghenion rhwydwaith rheilffyrdd y DU yn y cyfnod cyllido pum mlynedd—'cyfnod rheoli 4'—o 1 Ebrill 2009 hyd at 31 Mawrth 2014 yw 'cynllun busnes strategol cychwynnol' Network Rail. Gwneir cais i Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd ac mae'n rhan o broses ailadroddol i benderfynu faint o arian y bydd Network Rail yn ei gael i weithredu, cynnal a chadw, adnewyddu a gwella seilwaith rheilffyrdd y genedl.

Mae dwy set o ffigurau: mae'r 'llinell sylfaen' yn rhoi dealltwriaeth o'r isafgost effeithlon er mwyn rhedeg y rheilffyrdd yn eu cyflwr presennol, heb fawr o ddarpariaeth ar gyfer datblygu a thwf, ac mae'r 'achos sylfaen' yn adeiladu ar gynllun y llinell sylfaen drwy awgrymu cynlluniau datblygu sy'n ymateb i'r twf a ragwelir yn y galw o ran teithwyr a chludo nwyddau. Yn unol â'r datganiadau cyllid ac allbwn a gaiff eu cyhoeddi gan y Llywodraeth, rhoddir data ar sail Cymru a Lloegr (gyda'i gilydd), ac ar sail yr Alban. Bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei gyhoeddi gan y rheoleiddiwr ym mis Hydref 2008. Cyfeiriwch at y tabl isod i gael y ffigurau llinell sylfaen ac achos sylfaen.

Mae'r naill gynllun a'r llall yn bwriadu gwireddu arbedion effeithlonrwydd o bron i 18 y cant dros y cyfnod o bum mlynedd a byddant yn lleihau'r gost o redeg y rheilffyrdd gan fwy na £4 biliwn.

**Llinell sylfaen (isafgostau effeithlon i'r rheilffyrdd)**

**Cyfanswm am y cyfnod 2009-10—2013-14**

| **Categori buddsoddi** | **Cymru a Lloegr (£)** | **Yr Alban (£)** |
|---|---|---|
| Costau gweithredu, cynnal a chadw ac adnewyddu o ddydd i ddydd | £18.129 biliwn | £2.32 biliwn |
| Costau gwella—cynlluniau newydd | £1.023 biliwn | £0.020 biliwn |

**Achos sylfaen (i gwrdd â'r galw disgwyliedig oherwydd twf)**

| **Categori buddsoddi** | **Cymru a Lloegr (£)** | **Yr Alban (£)** |
|---|---|---|
| Costau gweithredu, cynnal a chadw ac adnewyddu o ddydd i ddydd | £18.410 biliwn | £2.365 biliwn |
| Costau gwella—cynlluniau newydd | £7.003 biliwn | £0.938 biliwn |

**Nick Bourne:** Pa gymorth ariannol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i hasiantaethau i Celtic Energy mewn perthynas â safle glo brig Pwll y Dwyrain yng Ngwauncaegurwen? (WAQ47639)

**Andrew Davies:** Dim.

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda chydweithwyr yn San Steffan ynghylch trosglwyddo cyfrifoldeb am brosiectau creu ynni dros 50 MW i Gynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ47640)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion unrhyw ohebiaeth rhyngddo a'i gydweithwyr yn San Steffan ynghylch trosglwyddo cyfrifoldeb am brosiectau creu ynni dros 50 MW i Gynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ47641)

**Andrew Davies:** Nid wyf wedi ysgrifennu'n benodol am drosglwyddo adrannau 36 a 37 o Ddeddf Trydan 1989 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan fod y mater hwn yn cael ei symud ymlaen drwy'r gweithgor teir-ran. Mae'r gweithgor yn cael ei gadeirio gan swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac mae'n cynnwys swyddogion o'r Adran Masnach a Diwydiant a Llywodraeth y Cynulliad.

Fodd bynnag, yr wyf yn trafod amryw o faterion strategol gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU yn rheolaidd, gan gynnwys trosglwyddo pwerau o dan Ddeddf Trydan 1989. Y drafodaeth ddiweddaraf oedd pan gyfarfûm â Malcolm Wicks a'r Gwir Anrhydeddus Alun Michael ar 4 Mai 2006.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**David Davies:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu eu cymryd yn dilyn yr ymgynghoriad ar garthffosydd sydd heb eu mabwysiadu? (WAQ47628)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Mae’r swyddogion yn gweithio gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar hyn o bryd i baratoi dau asesiad effaith reoleiddiol, a fydd yn ystyried goblygiadau cost posibl yr opsiynau sydd ar gael i ymdrin â mater carthffosydd sydd heb eu mabwysiadu. Bydd y rhain yn sylfaen wedyn i’r broses benderfynu. Yng ngoleuni’r wybodaeth honno am gostau, mae’n debygol y byddaf fi, ar y cyd â’m cyd-Weinidogion yn DEFRA, yn dod i benderfyniad yn ddiweddarach eleni ynghylch sut yr ydym am symud materion ymlaen.

## Cwestiynau i’r Gweinidog Cyllid

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pa drafodaethau y mae Gwerth Cymru wedi’u cael gyda Swyddfa Masnach y Llywodraeth gyda’r nod o gael ei achredu fel canolfan Gateway yng Nghymru? (WAQ47615)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Mae Gwerth Cymru wedi cael trafodaethau archwiliadol gyda Swyddfa Masnach y Llywodraeth am egwyddorion sefydlu proses adolygu Gateway bwrpasol i Gymru. Mae hyn wedi cynnwys dealltwriaeth o’r ffordd y mae Swyddfa Masnach y Llywodraeth yn rhedeg ei phroses achredu a sut mae system arfarnu buddion Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth yn gweithredu.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch sut y bydd defnydd Llywodraeth Cynulliad Cymru o egwyddorion adolygiad Gateway yn gwella gwaith ei Llywodraeth gyda’r sector cyhoeddus yng Nghymru? (WAQ47617)

**Sue Essex:** Mae egwyddorion adolygiad Gateway yn ddull sy’n cael ei dderbyn yn eang ac sydd wedi profi ei werth i helpu i sicrhau bod prosiectau’n cael eu cynllunio’n iawn, eu bod yn rhoi gwerth am arian a bod rheolaeth brosiect drostynt o’r dechrau i’r diwedd. Bydd mabwysiadu’r egwyddorion hyn ar draws prosiectau sector cyhoeddus yn rhoi sicrwydd i’r cyrff sy’n rheoli’r prosiect a Llywodraeth Cynulliad Cymru fod prosiectau’n cael eu rheoli’n iawn.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflawniadau Gwerth Cymru hyd yma? (WAQ47619)

**Sue Essex:** Fe’ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais ar 6 Gorffennaf i WAQ47474 gan John Griffiths.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddogaeth a chyfrifoldebau Gwerth Cymru? (WAQ47621)

**Sue Essex:** Fe’ch cyfeiriaf at yr ateb ar 6 Gorffennaf i WAQ47474 gan John Griffiths.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion yr amser aros cyfartalog ar gyfer trin aflwydd symffysis pwbis ar gyfer pob blwyddyn er 1999? (WAQ47606)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Pan fydd y driniaeth ar gyfer aflwydd symffysis pwbis yn cael ei reoli o fewn yr arbenigedd orthopedig, bydd y nifer o gleifion sy'n aros yn ymddangos ar yr amseroedd aros priodol am drawma ac orthopedeg. Mae'r ystadegau hyn, sy'n cynnwys pob blwyddyn er 1999, ar gael i'r cyhoedd ac fe'u cyhoeddir ar wefan y Cynulliad ar http://www.statscymru.cymru.gov.uk/intro_wal/index.htm.

**David Lloyd:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal ynghylch darparu niwrolawdriniaeth bediatrig yng Nghymru? (WAQ47607)

**Brian Gibbons:** Fel rhan o'r prosiect gwasanaethau arbenigol i blant a phobl ifanc, mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i ddatblygu safonau ar gyfer niwrowyddorau pediatrig, gan gynnwys niwrolawdriniaeth, niwroleg a niwroanabledd yng Nghymru. Pwrpas y prosiect yw datblygu safonau sy'n benodol i wasanaethau ar gyfer gwasanaethau arbenigol i blant yng Nghymru a galluogi mynediad cydradd i bob plentyn yng Nghymru y mae angen gwasanaethau arbenigol arno drwy rwydweithiau clinigol sy'n cael eu rheoli'n effeithiol.

**John Marek:** Pa ganllawiau sy'n bodoli ar gyfer trin diabetes yng Nghymru a pha gynlluniau a geir ar gyfer eu datblygu? (WAQ47611)

**Brian Gibbons:** Mae'r canllawiau ar gyfer trin diabetes yng Nghymru wedi cael eu nodi yn y fframwaith gwasanaethau cenedlaethol ar gyfer diabetes. Mae'r cynnydd o ran rhoi cynlluniau gweithredu'r strategaeth gyflawni ar waith yn cael ei gynnal gyda'r nod o gyrraedd pob un o'r 12 safon.

Fel rhan o hyn, mae cyfres o ganllawiau (canllawiau consensws diabetes neu 'lwybrau gofal') sy'n uniongyrchol berthnasol i'r safonau a nodwyd yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer diabetes yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Cyfeiriwyd fersiynau diweddaraf y canllawiau consensws diabetes at grwp consensws Cymru gyfan am ei ystyriaeth a'i sylwadau. Yr ydym yn aros am y fersiynau diwygiedig erbyn diwedd Gorffennaf inni eu hystyried a'n nod yw eu cyhoeddi at ddibenion ymgynghori yn gynnar yn yr hydref.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog restru'r hosbisau sydd ar gael i gleifion o Gymru ar gyfer afiechydon marwol nad ydynt yn ganser? (WAQ47613)

**Brian Gibbons:** Mae pob hosbis i gleifion o Gymru, sy'n gofrestredig o dan y rheoliadau gofal iechyd preifat a gwirfoddol, yn darparu gofal lliniarol. Nid oes yr un o'r hosbisau hyn yn darparu gofal i gleifion sydd ag afiechydon marwol nad ydynt yn ganser yn unig.

**Laura Anne Jones:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod nyrsio un i un ar gael i fabanod mewn unedau gofal dwys yn Nwyrain De Cymru? (WAQ47622)

**Brian Gibbons:** Mae'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i blant a phobl ifanc, a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2005, yn cynnwys cam gweithredu allweddol 3.32—mae babanod y mae angen gofal newyddenedigol dwys arnynt yn cael gwasanaethau yn unol â'r safonau sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chomisiwn Iechyd Cymru.

Fel rhan o’r prosiect cyfredol gwasanaethau arbenigol i blant a phobl ifanc, mae safonau ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol yn cael eu datblygu. Mae’r safonau hyn yn cynnwys y cam gweithredu allweddol ar gyfer gofal lefel un, sef bod cymhareb nyrsio 1:1 yn cael ei darparu i fabanod y mae angen gofal newyddenedigol arnynt. Mae hynny’n unol ag argymhellion Cymdeithas Bediatrig Prydain ar ofalu am fabanod mewn unedau gofal dwys. Mae Comisiwn Iechyd Cymru wedi cynnal adolygiad o wasanaethau newyddenedigol ac yr ydym yn disgwyl am y canlyniadau ar hyn o bryd.

**Peter Black:** Beth oedd cyfanswm cost y panel annibynnol a luniodd yr argymhelliad i symud niwrolawdriniaeth i Gaerdydd, ac o ba gyllideb y talwyd y costau? (WAQ47623)

**Brian Gibbons:** Mae’r costau hyd yma fel a ganlyn:

| | **Eitem** | **Cost** |
|---|---|---|
| Saith cyfarfod £500 y sesiwn | £3,500 | |
| Llety dros nos | £98 | |
| Teithio (hawliad heb ddod i law eto) | Tua £700 | |
| Model gweithlu ymgynghorydd | £2,000 | |
| Teithio (hawliad heb ddod i law eto) | Tua £200 | |
| **Panel annibynnol** | Saith cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghomisiwn Iechyd Cymru | Lluniaeth yn unig |
| **Ymgynghorwyr rheoli Finnamore** | Asesiad effaith cychwynnol (Cam 1)<br>Asesiad effaith<br>Bod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd prosiect<br>Cynhyrchu adroddiad terfynol | £8,225<br><br>£79,104 hyd yma—yn disgwyl am anfoneb derfynol am dreuliau |
| | **Cyfanswm** | **£93,827 yn fras** |

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog nodi’n glir a fydd angen i unrhyw fferyllwyr gludo silindrau ocsigen i gleifion ar ôl Gorffennaf 2006, ac a wnaiff nodi’n glir a fydd y fferyllwyr hynny y bydd gofyn iddynt gludo silindrau i gleifion yn cael eu talu? (WAQ47624)

**Brian Gibbons:** Gofynnwyd i’r byrddau iechyd lleol ystyried yr angen am i nifer gyfyngedig o fferyllfeydd strategol ddiwallu angen nas rhagweld yn ystod mis Awst, a dynodi’r fferyllfeydd hynny. Bydd Air Products yn ymgymryd â’r cyfrifoldeb llawn i ddiwallu holl anghenion cleifion o 1 Medi. Mae’r tariff cyffuriau yn cadarnhau’n glir y gall fferyllfeydd barhau i hawlio ad-daliad am gludo silindrau.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw gynlluniau tymor hir sydd ganddo i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer pobl sydd ag anhwylder bwyta, ac a wnaiff nodi sut y bydd yn cynnwys rhanddeiliaid yn y cynlluniau hynny? (WAQ47625)

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba gamau y mae'r byrddau iechyd lleol wedi eu cymryd hyd yma i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer pobl ag anhwylderau bwyta? (WAQ47626)

**Brian Gibbons**: Comisiwn Iechyd Cymru sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau ar gyfer pobl ag anhwylderau bwyta, gan gynnwys gwasanaethau gofal arbenigol i gleifion mewnol. Mae Comisiwn Iechyd Cymru yn cwrdd â'r BILlau ac ymddiriedolaethau'r GIG i ddatblygu gwasanaeth arbenigol trydyddol i gefnogi gwasanaethau lleol sy'n ymdrin ag anhwylderau bwyta. Bydd hyn yn gymorth i'r cleifion hynny sydd â'r anhwylderau bwyta mwyaf difrifol ac yn help i leihau'r angen am wasanaeth cleifion mewnol arbenigol. Mae'r cyrff hyn yn gweithio gyda grwp buddiant arbenigol anhwylderau bwyta Cymru gyfan ar hyn o bryd i ddatblygu'r cynigion hyn.

Y byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i'r cleifion hynny sydd ag anhwylderau bwyta, nad oes angen triniaeth fel cleifion mewnol neu ofal dydd arbenigol arnynt. Mae cleifion iau na 18 oed yn cael eu gweld gan dimau therapi dwys cymunedol.

Fel un o gamau allweddol y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol diwygiedig ar gyfer iechyd meddwl oedolion, bydd amryw o wasanaethau arbenigol ar gael ledled Cymru. Dylai'r rheiny gynnwys gwasanaethau anhwylderau bwyta hygyrch yn ardal pob ymddiriedolaeth. Yr ydym wedi gofyn i'r BILlau a'r comisiwn iechyd archwilio'r ddarpariaeth gwasanaethau anhwylderau bwyta i gleifion mewnol a datblygu gwasanaethau priodol yn unol â'r strategaethau comisiynu.

Mae'r BILlau yn cynhyrchu eu cynlluniau gweithredu lleol eu hunain. Mae'r rhain yn dangos sut y maent yn bwriadu rhoi camau gweithredu allweddol y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar waith a darparu gwasanaethau iechyd meddwl ychwanegol, y tu hwnt i'r rhai sy'n ofynnol i gyrraedd targedau presennol y fframwaith gwasanaeth a chyllid. Disgwylir i'r cynlluniau gweithredu lleol gael eu cyhoeddi ar wefannau'r BILlau ym mis Hydref.

Yr ydym hefyd wedi comisiynu Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru i ddatblygu llwybr gofal ar gyfer anhwylderau bwyta, o ofal sylfaenol hyd at ofal trydyddol. Byddem hefyd yn disgwyl i bob haen o'r gwasanaeth roi sylw i'r rhain ac i ganllawiau clinigol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol wrth ystyried sut i ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer anhwylderau bwyta.

**Leanne Wood:** Beth oedd cost hawliadau yn sgil esgeuluster meddygol i'r GIG yng Nghymru bob blwyddyn rhwng 1999-2000 a 2005-06 a pha ganran o'r gost oedd yn cynrychioli ffioedd cyfreithiol? (WAQ47630)

**Brian Gibbons:** Mae costau esgeuluster meddygol yn cael eu hadrodd yng nghyfrifon cyhoeddedig ymddiriedolaethau GIG, byrddau iechyd lleol a'r cyn awdurdodau iechyd dros y cyfnod a nodir yn y tabl isod. Mae'r tabl yn dangos y ffioedd cyfreithiol a nodwyd gan sefydliadau GIG yn eu cyfrifon ond rhaid nodi bod y ffioedd cyfreithiol a nodir yn cwmpasu pob hawliad cyfreithiol (er enghraifft, gan gynnwys anafiadau personol) ac nid yw felly'n bosibl darparu'r wybodaeth benodol a geisiwyd am ffioedd cyfreithiol.

**Taliadau esgeuluster meddygol a nodwyd mewn cyfrifon GIG cryno**

| | 2005-06 | 2004-05 | 2003-04 | 2002-03 | 2001-02 | 2000-01 | 1999-2000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ymddiriedolaethau GIG** | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 |
| Esgeuluster clinigol | 15,590 | 69,866 | 6,445 | 54,064 | 22,000 | 28,472 | 19,493 |
| Ffioedd cyfreithiol | 1,165 | 1,022 | 2,113 | 7,166 | 3,890 | 2,053 | 1,156 |
| **Byrddau Iechyd Lleol** | | | | | | | |
| Esgeuluster clinigol | 20,002 | 15,608 | -2,860 | | | | |
| Ffioedd cyfreithiol | 79 | -499 | 1,570 | | | | |
| **Awdurdodau Iechyd** | | | | | | | |
| Esgeuluster clinigol | | | | 8,052 | 10,347 | 17,390 | 28,048 |
| Ffioedd cyfreithiol | | | | 1,424 | 494 | 976 | 841 |

Ffynhonnell: Cyfrifon cryno GIG Cymru

Nodyn: Mae’r ffioedd cyfreithiol a nodir yng nghyfrifon y GIG yn cyfeirio at yr holl hawliadau cyfreithiol sy’n effeithio ar gyrff GIG gan gynnwys anafiadau personol.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar argaeledd triniaeth ar gyfer pobl sy’n dioddef o iselder a gofid cronig? (WAQ47634)

**Brian Gibbons:** Mae’r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) wedi cyhoeddi canllaw glinigol ar reoli iselder mewn gofal sylfaenol a gofal eilaidd. I bobl sydd ag iselder ysgafn i ganolig, mae’n argymell triniaethau seicolegol sy’n canolbwyntio’n benodol ar iselder, fel therapi datrys problemau, therapi ymddygiad gwybyddol neu gwnsela. Gall y rhain fod mor effeithiol â thriniaethau cyffuriau a gallant gael eu cynnig fel opsiynau trin.

Er bod gwasanaethau cwnsela eisoes yn cael eu darparu mewn llawer o feddygfeydd teuluol, mae fframwaith gwasanaeth a chyllid 2006-07 yn cynnwys targed y dylai mynediad at wasanaethau seicolegol fod ar gael drwy bob practis meddyg teulu naill ai fel rhan o’r sylfaen gofal sylfaenol neu fod y gwasanaethau hynny ar gael i’r sylfaen gofal sylfaenol. Dylai hynny fod o fewn cyfnod aros hwyaf o ddim mwy na 12 wythnos.

**Jonathan Morgan:** Beth yw’r prif resymau a gofnodwyd ar gyfer canslo apwyntiadau llawdriniaeth yng Nghymru? (WAQ47635)

**Brian Gibbons:** Mae bron i hanner yr achosion o ohirio neu ganslo llawdriniaethau i’w priodoli i’r claf. Mae’r rhesymau’n cynnwys fod y dyddiad yn anhwylus a hefyd y rhai nad ydynt yn cadw eu hapwyntiad. Lle mae llawdriniaethau wedi cael eu gohirio neu eu canslo gan ymddiriedolaeth GIG, mae’r rhesymau’n cynnwys nad yw’r claf yn ffit yn glinigol ar gyfer llawdriniaeth, nad oes gwelyau ar gael ar y wardiau, bod achosion brys neu achosion trawma’n cael blaenoriaeth, bod y rhestrau llawdriniaeth yn rhedeg yn hwyr ac nad oes angen y llawdriniaeth mwyach.

**Jonathan Morgan:** Beth yw cost flynyddol apwyntiadau am lawdriniaeth sy’n cael eu canslo yng Nghymru, ac a wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o’r ffigur a) fesul Ymddiriedolaeth y GIG a b) fesul dyddiad dros y pum mlynedd diwethaf? (WAQ47636)

**Brian Gibbons:** Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn casglu gwybodaeth benodol am gostau apwyntiadau llawdriniaeth sy’n cael eu canslo. Fodd bynnag, mae ymddiriedolaethau GIG yn adrodd cost gyfartalog cyfnodau gofal cleifion lle nad yw triniaethau a gynlluniwyd yn cael eu cyflawni fel rhan o’u datganiadau costau blynyddol i’r grwp adnoddau gofal iechyd. Bydd y rhain yn cynnwys sefyllfaoedd lle cafodd triniaethau eu canslo am resymau clinigol. Mae’r costau fesul ymddiriedolaeth am 2003-04 a 2004-05 wedi eu cynnwys yn y tabl isod.

| | 2003-04 | 2004-05 |
|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG | £ miliwn | £ miliwn |
| Bro Morgannwg | 0.353 | 0.316 |
| Caerdydd a’r Fro | 0.765 | 0.950 |
| Sir Gaerfyrddin | 0.288 | 0.193 |
| Ceredigion a Chanolbarth Cymru | 0.041 | 0.093 |
| Conwy a Sir Ddinbych | 0.232 | 0.520 |
| Gofal Iechyd Gwent | 0.427 | 0.532 |
| Gogledd Ddwyrain Cymru | 0.360 | 0.206 |
| Gogledd Morgannwg | 0.142 | 0.159 |
| Gogledd Orllewin Cymru | 0.281 | 0.099 |
| Sir Benfro a Derwen | 0.084 | 0.164 |
| Pontypridd a Rhondda | 0.189 | 0.161 |
| Abertawe | 0.536 | 0.453 |
| **Cyfanswm** | **3.698** | **3.845** |

Nid yw’r costau fesul ymddiriedolaeth ar gael yn hwylus cyn 2003-04, ond dyma gyfanswm y gwariant drwy Gymru yn y blynyddoedd cyn hynny:

| | |
|---|---|
| 2002-03 | £3.485 miliwn |
| 2001-02 | £3.772 miliwn |
| 2000-01 | £3.708 miliwn |

| | |
|---|---|
| 1999-2000 | Ddim ar gael |

**Jonathan Morgan:** Os bydd meddyg mewn ysbyty neu weithiwr iechyd proffesiynol priodol yn penderfynu bod angen llawdriniaeth ar gleifion, a yw'r cleifion hynny yn cael eu hychwanegu at y rhestrau aros priodol yn syth, ac os oes eithriadau, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr eithriadau hynny? (WAQ47637)

**Brian Gibbons:** Yng Nghymru yr ydym yn canolbwyntio ar amseroedd aros yn hytrach na rhestrau aros. Caiff y ffigurau eu cyhoeddi bob mis ac maent yn cynrychioli'r nifer o bobl y mae'r GIG yn adrodd eu bod yn aros am apwyntiad cyntaf fel claf allanol neu i gael eu derbyn i'r ysbyty am driniaeth fel claf mewnol neu achos dydd.

Mae'r amseroedd aros yn dechrau o'r dyddiad y mae'r clinigwr ysbyty (sydd o dan arweiniad ymgynghorydd) yn penderfynu derbyn y claf am driniaeth—y dyddiad cyfeirio clinigol. Caiff y claf ei ychwanegu at y rhestr aros cleifion mewnol neu achosion dydd wedyn cyhyd â bo'r claf ar gael ac yn ffit i gael triniaeth. I ddechrau yr un yw'r dyddiad rhestr aros â'r dyddiad cyfeirio clinigol ond amlinellir nifer o sefyllfaoedd yn y canllawiau arferion da (2005) lle gallai'r dyddiad rhestr aros newid.

Nid yw'r ffigurau'n cynnwys y cleifion hynny nad ydynt yn gallu cael triniaeth ar hyn o bryd oherwydd eu cyflwr clinigol, na chleifion sydd wedi cael eu hatal oddi ar y rhestrau aros dros dro am resymau cymdeithasol.

Mae'r rhestrau aros a adroddir gan ganolfannau gwasanaethau busnes Cymru yn cynnwys yr holl bobl hynny sy'n byw yn ardal bwrdd iechyd lleol sy'n aros am driniaeth ysbyty a gyllidir gan y GIG. Bydd hyn yn cynnwys y rhai sy'n aros am driniaeth mewn ysbytai GIG y tu allan i Gymru ac mewn ysbytai preifat lle mae'r bwrdd iechyd lleol yn darparu cyllid ar gyfer y driniaeth.

**Jenny Randerson:** Beth oedd rôl swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mhenodiad cyfarwyddwr prosiect uned cyflawni a chefnogi GIG Cymru gan yr Asiantaeth Genedlaethol Arweiniad ac Arloesoldeb dros Ofal Iechyd? (WAQ47642)

**Jenny Randerson:** A oedd swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwybodol o ymchwiliad y Comisiwn Archwilio i gontractau yn yr Ysbyty Orthopedeg Brenhinol, Birmingham cyn penodiad cyfarwyddwr prosiect uned cyflawni a chefnogi GIG Cymru? (WAQ47644)

**Jenny Randerson:** Pa gyswllt a gafwyd rhwng swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran Iechyd ynghylch penodiad cyfarwyddwr prosiect uned cyflawni a chefnogi yr Ysbyty Orthopedeg Brenhinol, Birmingham? (WAQ47645)

**Brian Gibbons:** Sefydlwyd yr uned cyflawni a chefnogi yn 2005 gyda dwy brif swyddogaeth: darparu cymorth i sefydliadau a oedd yn cael anhawster i gyrraedd y targedau cenedlaethol a rheoli prosiect amseroedd aros 2009. Ers ei sefydlu, mae wedi cael effaith fawr ar wella perfformiad y GIG mewn meysydd penodol sy'n cael eu targedu.

Cafodd Ms Miles ei phenodi'n wreiddiol i swydd dros dro cyfarwyddwr prosiect ac yna, yn hydref 2005, i swydd barhaol y cyfarwyddwr. Mae'r ymateb hwn yn ymdrin â'r cwestiynau yng nghyd-destun rôl y cyfarwyddwr prosiect, fel y gofynnwyd.

Swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru fu'n rheoli gweithrediad y polisi i sefydlu'r uned cyflawni a chefnogi a buont yn cyfarwyddo AGAAGI ynglyn â phenodi cyfarwyddwr y prosiect. Nid oedd y swyddogion yn ymwybodol o ymchwiliad y Comisiwn Archwilio cyn y penodiad. Yr oedd fy swyddogion mewn cysylltiad agos â'r Adran Iechyd mewn perthynas â gweithrediad uned adfer a chefnogi yr adran honno. Bwriadwyd hynny fel sail i gynigion y Cynulliad i greu uned debyg yng Nghymru. Nid oedd gan yr Adran Iechyd unrhyw rôl yn y broses recriwtio i swydd y cyfarwyddwr prosiect.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog nodi sut y bydd cleifion y mae angen silindrau ocsigen arnynt ar ôl 1 Awst 2006 yn eu derbyn (i) os oes crynodydd ganddynt yn eu cartrefi ond nad ydynt yn gallu gadael eu cartrefi, (ii) os nad ydynt wedi cael eu hasesu gan Air Products, (iii) os ydynt wedi cael eu hasesu gan Air Products? (WAQ47642)

**Brian Gibbons:** Dylai cleifion sydd ar grynodydd gael silindr wrth gefn rhag ofn i doriad pwer effeithio ar eu cyflenwad arferol. Nid oes angen proses asesu ar gyfer hyn.

**Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**

**Leanne Wood:** Sut y caiff llwyddiant Cymunedau yn Gyntaf o ran cynyddu gallu mewn cymunedau ei fesur ac a wnaiff y Gweinidog ddiffinio 'cynyddu gallu'? (WAQ47631)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Darparwyd diffiniad o gynyddu gallu yng nghanllawiau drafft Cymunedau yn Gyntaf 2006. Mae llinell sylfaen cyfranogi a chynyddu gallu mewn 10 o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd. Caiff y canlyniadau eu cyhoeddi yng ngaeaf 2006.

**Leanne Wood :** Faint o gynghorwyr sy'n aelodau o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a beth yw eu hymlyniadau gwleidyddol? (WAQ47632)

**Edwina Hart:** Nid wyf yn gofyn i'r ffigurau hyn gael eu coladu'n ganolog.

**Leanne Wood:** O ran y tabl a ddarparwyd gyda WAQ45279, a wnaiff y Gweinidog nodi pa fath o wariant sydd wedi ei ddiffinio (a) fel gwariant craidd a (b) ar gyfer prosiectau, a chynnwys enghreifftiau o bob math o wariant? (WAQ47633)

**Edwina Hart:** Mae 'costau craidd' yn gostau a achosir er mwyn rhoi'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar waith, megis cyflogau. Costau yn ymwneud â gweithgareddau penodol yw 'costau prosiect'. Ymysg y prosiectau a gyllidwyd yn y gorffennol mae gweithgareddau gemau amlddefnyddiwr, ond o hyn ymlaen byddwn yn canolbwyntio ar weithgareddau cynyddu gallu.